

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	22 MEDI 2026
Pwnc:	ADOLYGIAD RHEOLI'R TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2025/26
Deilydd Portffolio:	CYNG. ROBIN WILLIAMS - DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD CWSMER
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	MARC JONES
Ffôn:	
E-bost:	marc.jones@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	d/b
A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau	
Argymhelliad Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried yr adroddiad ac argymell bod y Cyngor llawn yn cymeradwyo'r adroddiad yng nghyfarfod y Cyngor Sir a gynhelir ar 24 Medi 2026. Rhesymau Yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys 2021 a Chôd Darbodus CIPFA 2021 (Y Côt), mae'n ofynnol i gorff y Cyngor sy'n gyfrifol am oruchwylio swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor dderbyn adroddiad diweddarau chwarterol ar berfformiad rheoli trysorlys y Cyngor a ph'un a yw'n cydymffurfio â'r cyfyngiadau a nodir yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Mae'r adroddiad yn darparu diweddariad economaidd, nodi'r sefyllfa bresennol o ran benthyca, amlinellu perfformiad buddsoddiadau a mesur sefyllfa bresennol y Cyngor yn erbyn y dangosyddion perfformiad a nodir yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys flynyddol. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi unrhyw achosion o fynd yn groes i'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Mae'r amgylchedd rheoliadol yn gosod cyfrifoldeb ar Aelodau ar gyfer adolygu a chraffu ar y polisi rheoli'r trysorlys a gweithgareddau cysylltiedig. Mae'r adroddiad hwn felly'n bwysig o ran ei fod yn darparu manylion y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys ac yn amlygu cydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan Aelodau. Casgliad Ni fu newid yn sefyllfa fenthyca'r Cyngor, mae buddsoddiadau'n perfformio'n dda, ac mae elw ar fuddsoddiadau'n well na'r gyllideb, mae'r Cyngor yn parhau i weithredu o fewn cyfyngiadau Dangosyddion Perfformiad y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Flynyddol ac nid oes unrhyw achosion o fynd yn groes i'r Strategaeth y mae'n rhaid adrodd arnynt. Mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofyniad o dan y Côt i graffu ymlaen llaw ar yr adroddiadau rheoli trysorlys uchod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith cyn iddynt gael eu hadrodd arnynt i'r Cyngor llawn.	
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?	
Adroddiad er gwybodaeth yw hwn yn bennaf ac nid oes angen unrhyw benderfyniadau, felly, nid oes unrhyw opsiynau i'w hystyried.	

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried gan mai'r Pwyllgor Gwaith yw'r corff y mae'r Cyngor wedi rhoi cyfrifoldeb iddo am sicrhau fod rheoli'r trysorlys yn cael ei lywodraethu'n dda. Mae'n sicrhau hefyd fod y Cyngor yn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol 2003 a Chôd Darbodus CIPFA 2021.		
CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Nid oes angen penderfyniad ffurfiol ond mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad yn darparu sicrwydd bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys Flynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 6 Mawrth 2025.		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Nid oes angen unrhyw benderfyniad fydd yn cael effaith ar gyllideb y Cyngor mewn perthynas â'r adroddiad hwn.		
DD – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?	Mae Rheoli'r Trysorlys yn allweddol er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd mewn perthynas ag anghenion hirdymor yr Ynys, gan fod cynlluniau benthyca'n cynorthwyo i gyllido gwariant cyfalaf er mwyn sicrhau fod asedau ar gael yn awr ac yn y dyfodol. Mae'n rhaid i gynlluniau trysorlys fod yn fforddiadwy hefyd er mwyn sicrhau nad yw cenedlaethau'r dyfodol yn wynebu anfantais oherwydd penderfyniadau Rheoli'r Trysorlys a wnaethpwyd yn y tymor byr a'r tymor canol.
2	A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Mae'n rhaid i strategaeth a gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys fod yn fforddiadwy er mwyn lliniaru'r effaith yn y dyfodol. Gallai rhywfaint o wariant cyfalaf sy'n cael ei gyllido trwy fenthyca, megis y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a chynlluniau buddsoddi i arbed eraill, a gyllidir drwy fenthyca, gynorthwyo i leihau costau yn y dyfodol.
3	A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy	Yn aml mae gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys yn cyllido prosiectau cyfalaf mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis Llywodraeth Cymru (LIC).
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Mae'r rhaglen gyfalaf flynyddol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus bob blwyddyn, â Dinasyddion Môn, ac mae rhan o'r rhaglen honno'n ddibynnol ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys.
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Bydd asedau newydd sy'n cael eu hadeiladu a'u cyllido trwy fenthyca yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig. Mae rhaglenni adnewyddu ac amnewid blynyddol hefyd yn cynorthwyo i wella hygyrchedd a galluogi amrywiaeth.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Adroddiad monitro statudol ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys yw hwn, nid penderfyniad strategol.

7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae rhai o'r prosiectau sy'n cael eu cyllido trwy fenthycu'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y Gymraeg a chynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg, megis yr ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu hadeiladu fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Dim sylwadau ychwanegol
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Awdur yr Adroddiad
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Dim sylwadau ychwanegol
4	Adnoddau Dynol (AD)	Ddim yn berthnasol
5	Eiddo	Ddim yn berthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Ddim yn berthnasol
7	Sgriwtini	Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried yr adroddiad ar 16 Gorffennaf 2026.
8	Aelodau Lleol	Ddim yn berthnasol
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	Ddim yn berthnasol
F - Atodiadau:		
Atodiad A - Adolygiad Rheoli'r Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2025/26		
FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
- Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025/26, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 6 Mawrth 2025 - Strategaeth Gyfalaf 2025/26, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 6 Mawrth 2025		

1. CYDYMFFURFIO Â GOFYNION ADRODD

- 1.1. Yn unol â gofynion Côt Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys (y Côt) a Chôt Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Côt Darbodus), mae'n rhaid cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn yn ystod y flwyddyn. Mae manylion yr adroddiadau hyn wedi'u crynhoi yn Nhabl 1 isod:-

Tabl 1
Crynodeb o'r Adroddiadau Rheoli'r Trysorlys a gyflwynwyd i Bwyllgorau a'r Cyngor llawn

Adroddiad	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	Pwyllgor Gwaith	Cyngor Llawn
Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Blynnyddol 2025/26	11 Chwefror 2025	27 Chwefror 2025	6 Mawrth 2025
Adroddiad Rheoli'r Trysorlys - Diweddariad Chwarter 1 2025/26	Wedi'i Ddirprwyo i'r Deilydd Portffolio - Cyhoeddwyd 1 Hydref 2025		
Adroddiad Rheoli'r Trysorlys - Diweddariad Canol Blwyddyn 2025/26	4 Rhagfyr 2025	16 Rhagfyr 2025	5 Mawrth 2026
Adroddiad Rheoli'r Trysorlys - Diweddariad Chwarter 3 2025/26	Wedi'i Ddirprwyo i'r Deilydd Portffolio - Cyhoeddwyd 19 Chwefror 2026		
Adroddiad Adolygu Blynnyddol 2025/26	16 Gorffennaf 2026	21 Gorffennaf 2026	24 Medi 2026

2. ADOLYGIAD O 2025/26 - FFACTORAU ALLANOL

- 2.1. Mae nifer o ffactorau nad yw'r Cyngor yn gallu eu rheoli yn dylanwadu ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys y Cyngor ac maent yn cael effaith sylweddol ar benderfyniadau'r Cyngor ynghylch benthyca a buddsoddi.

2.2. Cyfraddau Llog

Mae lefel cyfraddau llog pan wneir penderfyniadau a rhagolygon ar gyfer cyfraddau yn y dyfodol yn cael effaith sylweddol ar benderfyniadau rheoli'r trysorlys a gall ddylanwadu ar p'un a yw'r Cyngor yn benthyca'n allanol ai peidio, hyd unrhyw fenthyciadau, pryd fydd y Cyngor yn ymrwymo i fuddsoddiadau tymor hwy ac ymhle mae'r Cyngor yn buddsoddi ei arian dros ben.

Ar ddechrau 2025/26, roedd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn 4.5% ond, wrth i chwyddiant ostwng ac wrth i'r economi arafu, gwelwyd gostyngiad o 0.25% yn y gyfradd ym mis Mai 2025, Awst 2025 a Rhagfyr 2025 ac, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd y gyfradd yn 3.75%.

Roedd disgwyl toriadau pellach yn y gyfradd sylfaenol yn ystod gweddill 2026 ac roedd disgwyl i gyfraddau ddisgyn i tua 3% erbyn diwedd 2026 neu ddechrau 2027. Fodd bynnag, oherwydd y rhyfel yn y Dwyrain Canol, mae cyfraddau giltiau wedi cynyddu ac mae chwyddiant yn cynyddu hefyd. Oherwydd hyn, bydd unrhyw doriadau pellach yn y gyfradd sylfaenol yn cael eu gohirio hyd nes bydd y sefyllfa'n fwy eglur, neu nes bydd y rhyfel yn dod i ben a phrisiau olew yn gostwng yn ôl tuag at y lefel cyn y rhyfel.

2.3. Economi'r Deyrnas Unedig

Mae economi'r DU yn parhau i weithredu o dan ddylanwad digwyddiadau byd-eang mawr sydd yn effeithio'r economi fyd-eang, gan gynnwys parhad y rhyfel yn Wcráin a'r angen i wario mwy ar amddiffyn, y rhyfel yn y Dwyrain Canol a chyflwyno tollau masnach gan yr Unol Daleithiau, a gallai'r ffactorau hyn arafu economi'r byd a chynyddu prisiau olew ac ynni ac arwain at gynnydd mewn chwyddiant.

Mae chwyddiant yn y DU wedi bod braidd yn ystyfnig drwy gydol 2025/26. Ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol ar 3.5%, cyrhaeddodd y mesur chwyddiant CPI (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) uchafbwynt o 3.8% rhwng Gorffennaf a Medi, cyn gostwng i 3% ym mis Ionawr a Chwefror. Cododd chwyddiant craidd o 3.1% i 3.2% ym mis Chwefror a gallai'r cynnydd diweddar mewn prisiau ynni wthio chwyddiant CPI yn ôl tuag at 4% yn ddiweddarach eleni.

Mae referniw trethi net wedi cynyddu, yn bennaf o ganlyniad i incwm hunangyflogaeth a threthi enillion cyfalaf, ac mae'n golygu fod gan y Canghellor fwy o hyblygrwydd. Fodd bynnag, bydd y posibilrwydd o chwyddiant uwch a chyfraddau llog uwch yn arafu twf economaidd ac yn golygu fod ad-daliadau dyledion y Llywodraeth yn codi. Oherwydd hyn, bydd gan y Canghellor lai o hyblygrwydd a gallai olygu fod y Llywodraeth yn benthyca mwy.

Mae diweithdra wedi dechrau codi ac mae hyn, ynghyd â chwyddiant yn gostwng yn 2025, yn golygu fod twf cyflogau wedi gostwng, gydag enillion cyfartalog yn cynyddu 3.3% ym mis Ionawr 2026.

Mae twf economaidd y DU yn parhau'n wan, gyda GDP (Cynnyrch Domestig Gros) yn cynyddu 1.4% yn 2025, sef 0.3% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, ond mae disgwyl iddo arafu eto yn 2026, gyda thwf yn llai na 1%. Y rhagolwg diweddaraf ar gyfer 2026 yw 0.7%, o gymharu â 1.2% pan ddechreuodd y rhyfel yn y Dwyrain Canol.

3. GWARIANT CYFALAF 2025/26

3.1. Mae gwariant cyfalaf yn cael effaith sylweddol ar weithgarwch rheoli'r trysorlys y Cyngor. Gellir cyllido gwariant cyfalaf naill ai:-

- ar unwaith drwy ddefnyddio adnoddau cyfalaf neu referniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau referniw ac ati), nad yw'n cael unrhyw effaith ar angen y Cyngor i fenthycu; neu
- drwy fenthycu: Os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os penderfynir peidio â defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn arwain at yr angen i fenthycu.

- 3.2. Mae Tabl 2 isod yn cymharu'r gwariant cyfalaf drafft ar gyfer 2025/26 gyda'r cyllidebau gwreiddiol a diwygiedig:-

Tabl 2
Gwariant Cyfalaf 2025/26

	Cyllideb Wreiddiol 2025/26 £'m	Cyllideb Ddiwygiedig 2025/26 £'m	2025/26 Gwirioneddol £'m
Cronfa Gyffredinol	25.929	43.735	29.548
CRT (Cyfrif Refeniw Tai)	20.894	26.914	25.114
Cyfanswm Gwariant Cyfalaf	46.823	70.649	54.662
Cyllidwyd Gan			
Grantiau'r Gronfa Gyffredinol, Cronfeydd wrth Gefn a Chyfraniadau Refeniw	20.655	35.463	24.702
Grantiau CRT a Chyfraniadau Refeniw	9.319	21.852	25.114
Benthyciadau'r Gronfa Gyffredinol	5.274	8.272	4.846
Benthyciadau'r CRT	11.575	5.062	0.000
Cyfanswm Cyllid	46.823	70.649	54.662
Cyfanswm Gwariant a Gyllidwyd trwy Fenthycia	16.849	11.291	4.846

- 3.3. Mae'r prif amrywiadau o ran gwariant cyfalaf (dros £500k) wedi eu nodi yn Nhabl 3 isod:-

Tabl 3
Amrywiadau Gwariant Cyfalaf 2025/26

Cynllun	Tanwariant £'000	Sylwadau
Gwelliannau Cyfalaf CRT	1,800	Am fanylion pellach am wariant cyfalaf y CRT, gweler adroddiad Alldro'r CRT a gyflwynir i'r Pwyllgor hwn ar 21 Gorffennaf 2026.
Adnewyddu Ysgolion ac Adeiladau'r Cyngor, yn cynnwys addasiadau i bobl anabl	1,107	Roedd disgwyl i'r cyllidebau hyn danwario oherwydd bod cyllid grant ychwanegol wedi'i ddyfarnu yn ystod y flwyddyn. Defnyddiwyd Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Llywodraeth Cymru (LIC) i gyllido gwaith i ganiatáu Mynediad i Adeiladau Addysg i'r Anabl yn ystod 2025/26. Disgwylir i'r pwysau ar y pennawd hwn yn y gyllideb gynyddu yn y dyfodol wrth i ganlyniadau archwiliadau mynediad ddarparu darlun llawnach o'r gwaith sydd angen ei wneud. Roedd y gyllideb gyfalaf ar gyfer adeiladau Addysg wedi tanwario oherwydd bod y Cyngor wedi derbyn Grant Cyfalaf Atgyweirio a Chynnal a Chadw yn 2025/26. Mae penderfyniad bwriadol i beidio â cheisio gwario'r cyllid ar frys ond, yn hytrach, ei ddisodli yn erbyn gwariant ymrwymedig a'i ddwyn ymlaen i raglen fesuredig yn 2026/27.

Cynllun	Tanwariant £'000	Sylwadau
Ailddatblygu Safle'r Crown	731	Dyfarnwyd £936k o gyllid grant, ar gyfer y cyfnod rhwng Rhagfyr 2025 a Mawrth 2027, felly, mae'r grant yn rhychwantu'r flwyddyn ariannol nesaf hefyd. Mae'r cynllun yn mynd rhagddo ac mae'n unol â'r proffil gwariant. Roedd llithriad o £816k wedi'i gymeradwy ym mhapur cyllideb 2026/27, a dim ond £731k sydd ei angen yn awr. Bydd cyllid grant yn cael ei ddwyn ymlaen i flwyddyn ariannol 2026/27.
Rhaglen Adfywio Llywodraeth y DU Caergybi	3,295	Roedd tanwariant sylweddol yn debygol oherwydd oedi difrifol o ran cyflawni'r rhaglen gyfan. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi cytuno i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer y gwariant a dylai hynny olygu y gellir cwblhau prosiectau heb golli unrhyw gyllid.
Rhaglen Amnewid Gwres Carbon Isel yn Adeiladau'r Cyngor	1,780	5% o arian dargadw a hawliwyd ar brosiectau hyd yma yw £729k o'r tanwariant hwn, sef arian sy'n cael ei gadw'n ôl a'i ryddhau ar ôl cwblhau prosiectau'n llwyddiannus. Mae gweddill y tanwariant wedi codi yn sgil cais amrywio i LIC mewn perthynas â thri phrosiect ar gyfer gwaith ychwanegol na lwyddwyd i'w gwblhau'n ddiweddarach yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27, neu a gwblhawyd am lai na'r gyllideb. Mae'r gwasanaeth Ynni yn ymwybodol o gynnydd y cynlluniau hyn a rhagwelir y bydd y cyllid yn cael ei ddwyn ymlaen i 2026/27 er mwyn cwblhau'r gwaith.
Trawsnewid Trefi - Terfynfa Forol Amlwch	507	Dyfarnwyd £920k o gyllid grant ar gyfer y cyfnod rhwng Medi 2025 a Mawrth 2027, felly, mae'r grant yn rhychwantu'r flwyddyn ariannol nesaf hefyd. Mae'r cynllun yn mynd rhagddo ac mae'n unol â'r proffil gwariant. Cymeradwywyd llithriad o £480k ym mhapur cyllideb 2026/27, a dim ond £27k sydd ei angen yn awr. Bydd cyllid grant yn cael ei ddwyn ymlaen i 2026/27.
Trawsnewid Trefi - Grant Creu Lle	489	Dyfarnwyd cyfanswm o £952k o gyllid grant ar gyfer y cyfnod rhwng Medi 2025 a Mawrth 2027, felly, mae'r grant yn rhychwantu'r flwyddyn ariannol nesaf hefyd. Mae'r cynllun yn mynd rhagddo a chymeradwywyd llithriad o £301k ym mhapur cyllideb 2026/27, a dim ond £188k yn ychwanegol sydd ei angen yn awr. Bydd cyllid grant yn cael ei ddwyn ymlaen i 2026/27.
Prosiectau Gwastraff	1,237	Roedd llithriad sylweddol yn cael ei ragweld trwy gydol blwyddyn ariannol 2025/26, oherwydd bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth. Mae llithriad o £816k wedi'i gymeradwyo'n barod ac mae angen £421k yn ychwanegol yn awr.
Cynlluniau Eiddo (gan gynnwys Plas Arthur)	1,227	Fel y nodwyd mewn adroddiadau chwarterol blaenorol, roedd tanwariant sylweddol yn cael ei ragweld ar gynlluniau eiddo. Rhagwelwyd tanwariant sylweddol ar y gwaith gwella ym Mhlas Arthur o ganlyniad i flaenoriaethu cyllid grant i gyfrannu at y gwaith. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r cyllid hwn a'i ddefnyddio yn llawn yn ystod y flwyddyn ariannol hon a bydd y tanwariant yn cael ei ddwyn ymlaen i 2026/27 er mwyn parhau â'r gwaith. Ni ddefnyddiwyd cyllidebau penodol eraill gan fod y gwasanaeth wedi blaenoriaethu materion oedd â mwy o frys. Cymeradwywyd £1,529k o lithriad ym mhapur cyllideb 2026/27 mewn perthynas â'r cynlluniau hyn, ac mae angen gostyngiad o £176k yn awr.
Prosiectau Eraill	3,814	
Cyfanswm Tanwariant 2025/26	15,986	

4. EFFAITH AR SEFYLLFA ARIANNOL Y CYNGOR

4.1. Mae gwariant cyfalaf y Cyngor a sut mae'n cael ei gyllido yn effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor mewn perthynas â'r isod:-

- Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) - mesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthycha yw hwn, h.y. cyfanswm gwariant cyfalaf nad yw'n cael ei gyllido trwy grantiau, cyfraniadau refeniw neu cronfeydd wrth gefn;
- Y lefel benthycha;
- Y cydbwysedd rhwng benthycha allanol a benthycha sy'n cael ei gyllido gan falansau arian parod y Cyngor (benthycha mewnol);
- Cronfeydd wrth gefn a darpariaethau'r Cyngor.

4.2. Gofyniad Cyllido Cyfalaf

Er mwyn sicrhau fod lefelau benthycha yn ddarbodus yn y tymor canolig a dim ond at ddibenion cyfalaf, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthychiadau allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm GCC y flwyddyn flaenorol, ynghyd ag amcangyfrif o'r GCC ychwanegol ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Yn y bôn, mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn benthycha i gefnogi gwariant refeniw.

Tabl 4
Gofyniad Cyllido Cyfalaf a Benthychiadau Allanol

	Cyllideb £'000	Gwirioneddol £'000	Amrywiant £'000
Gofyniad Cyllido Cyfalaf			
Balans Agoriadol	152,389	152,389	-
Gwariant Cyfalaf	46,823	54,662	7,839
Asedau Hawl i Ddefnyddio (Iesoedd) sydd wedi'u trosglwyddo i'r Fantolen	1,275	1,275	-
Cyllid Grantiau, Balansau a Refeniw	(29,974)	(49,816)	(19,842)
Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI)	(1,534)	(1,534)	-
Darpariaeth Refeniw Isaf - Asedau Hawl i Ddefnyddio	(424)	(424)	-
Balans Cau	168,555	156,552	(12,003)

4.3. Ad-dalu Dyledion

Yn ystod 2025/26, gwnaethpwyd cyfanswm o £20k o ad-daliadau blynyddol ar fenthychiadau blwydd-dal y Bwrdd Benthychiadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) a £356k ar fenthychiadau di-log Salix. Ni ad-dalwyd unrhyw fenthychiadau aeddfedu sefydlog BBGC yn ystod y flwyddyn.

Gwnaethpwyd cyfanswm o £5.643m o daliadau llog mewn perthynas â benthychiadau BBGC.

4.4. Benthycha Mewnol ac Allanol

Pan fo balansau arian parod yn ddigonol, a phan fo cyfraddau buddsoddi yn is na chostau benthycha tymor hir, mae'r Cyngor wedi dilyn polisi o fenthycha'n fewnol, drwy ddefnyddio balansau arian parod i gyllido gwariant cyfalaf neu gyllido ad-daliadau benthyciadau cyfredol, yn hytrach na benthycha'n allanol. Mae'r polisi hwn yn sicrhau'r arbedion mwyaf posib. Lefel y benthycha mewnol yw'r gwahaniaeth rhwng y GCC a balans y benthyciadau allanol sy'n ddyledus. Mae hyn wedi'i grynhoi yn Nhabl 5 isod:-

Tabl 5
Benthycha Mewnol ac Allanol

	Cyllideb £'000	Gwirioneddol £'000	Amrywiant £'000
Benthycha Allanol			
Balans Agoriadol	122,082	122,082	-
Benthyciadau Newydd	16,849	-	(16,849)
Ad-dalu Benthyciadau	(376)	(376)	-
Balans Terfynol	138,555	121,706	(16,849)
Ceir dadansoddiad o'r benthyciadau dyledus fesul blwyddyn ad-dalu, fesul balans dyledus yn ôl blwyddyn, fesul math o fenthychiad a fesul Cronfa yn Atodiadau 1 i 4.			
Benthycha Mewnol			
Balans Agoriadol	30,307	30,307	-
Benthyciadau Newydd yn lle Benthyciadau Mewnol	(26,849)	-	26,849
Benthyciadau Newydd i Gyllido Ad- dalau Benthyciadau	-	-	-
Benthyciadau Newydd i Gyllido Gwariant Cyfalaf	16,849	4,846	(12,003)
Ad-daliadau Benthyciadau yn ystod y Flwyddyn	376	376	-
Asedau Hawl i Ddefnyddio (Iesoedd) sydd wedi'u trosglwyddo i'r Fantolen	1,275	1,275	-
Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI)	(1,534)	(1,534)	-
Darpariaeth Refeniw Isaf - Asedau Hawl i Ddefnyddio	(424)	(424)	-
Balans Cau	20,000	34,846	14,846

- 4.5. Mae cyfnod aeddfedu cyfartalog a chyfradd gyfartalog benthyciadau presennol wedi'u nodi yn Nhabl 6 isod:-

Tabl 6
Cyfnod Aeddfedu Cyfartalog a Chyfradd Llog Cyfartalog Benthyciadau Dyledus

	31 Mawrth 2026		31 Mawrth 2025	
	Cyfnod Aeddfedu Cyfartalog	Cyfradd Llog Cyfartalog	Cyfnod Aeddfedu Cyfartalog	Cyfradd Llog Cyfartalog
BBGC Aeddfedu	18.21 Mlynedd	4.47%	19.21 Mlynedd	4.47%
BBGC Blwydd-dal	4.37 Mlynedd	10.87%	5.37 Mlynedd	10.57%
Salix	3.67 Mlynedd	0.00%	3.63 Mlynedd	0.00%

5. BUDDSODDIADAU

- 5.1. Ar unrhyw adeg, mae'r Cyngor yn dal arian parod dros ben sy'n cynnwys balansau cyffredinol y Cyngor, cronfeydd wrth gefn clustnodedig, balansau ysgolion, cronfeydd wrth gefn y CRT, darpariaethau a derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy, heb gynnwys gwariant cyfalaf sy'n cael ei gyllido trwy fenthycia mewnol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r swm sydd ar gael i'w fuddsoddi yn newid wrth i wariant cyfalaf ddigwydd a thrwy symudiadau dyddiol arferol mewn balansau arian parod.
- 5.2. Mae'r cyllid oedd wedi'i fuddsoddi ar ddechrau a diwedd y flwyddyn ariannol wedi'i nodi yn Nhabl 7 isod:-

Tabl 7
Cyllid wedi'i Fuddsoddi ar Ddechrau a Diwedd y Flwyddyn Ariannol

	Balans Agoriadol ar 1 Ebrill 2025 £	Balans Cau ar 31 Mawrth 2026 £
Buddsoddiadau Banc Tymor Sefydlog	7,000,000	0
Buddsoddiadau mewn Awdurdodau Lleol	0	0
Cyfrifon Galw ac Adneuon	5,961,425	19,786,350
Cyfrif Cyfredol	257,026	198,055
Cyfanswm Cyllid a Fuddsoddwyd	13,218,451	19,984,405

- 5.3. Ceir dadansoddiad o'r buddsoddiadau fesul chwarter a fesul gwrthbarti yn Atodiad 5 a 6.
- 5.4. Ar gyfartaledd, roedd £10.13m wedi'i fuddsoddi mewn buddsoddiadau tymor sefydlog yn 2025/26, gyda chyfradd enillion cyfartalog o 4.48%. Mae hyn yn cymharu â buddsoddiad cyfartalog o £14.59m yn 2024/25, gydag enillion cyfartalog o 5.05%.
- 5.5. Y balans cyfartalog mewn cyfrifon galw yn 2025/26 oedd £20.624m, a'r enillion cyfartalog oedd 2.83%. Mae hyn yn cymharu â buddsoddiad cyfartalog o £22.175m yn 2024/25, gydag enillion cyfartalog o 3.88%.
- 5.6. Fe wnaeth buddsoddiadau mewn buddsoddiadau tymor sefydlog, cyfrifon galw a chyfrifon cyfredol gynhyrchu £1.006m mewn llog. Ar ôl trosglwyddo llog i ddeiliaid bondiau a mân ymddiriedolaethau, cynhyrchodd y buddsoddiadau £705k mewn llog ar gyfer y gronfa gyffredinol, o gymharu â chyllideb o £450k, £157k ar gyfer y CRT, o gymharu â chyllideb o £138k, a £144k ar gyfer ysgolion.

6. CYDYMFFURFIAETH Â'R DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS

- 6.1.** Cafodd y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) ar gyfer 2025/26 ei chymeradwyo gan y Cyngor ar 6 Mawrth 2025 ac roedd yn nodi nifer o egwyddorion. Mae perfformiad y Cyngor yn erbyn yr egwyddorion hyn wedi'i nodi isod.

6.2. Strategaeth Fenthycia (Paragraff 8.1 a 8.2 yn y DSRhT 2025/26)

Mae'r Cyngor wedi dilyn strategaeth o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn arian parod i gyllido gwariant cyfalaf (benthycia mewnol) ac mae'n benthycia'n allanol dim ond pan fo balansau arian parod yn rhy isel, pan fo cynnydd cyflym mewn cyfraddau llog yn cael ei ragweld ar adeg y benthyciad, neu pan fo'r cyfraddau benthycia'n is na chyfraddau llog ar fuddsoddiadau.

Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau newydd yn ystod 2025/26, a'r bwriad oedd gohirio unrhyw fenthycia cyn hired â phosib wrth i gyfraddau llog barhau i ostwng. Ym mis Mawrth 2025, roedd balansau arian parod y Cyngor yn sylweddol uwch ar ôl derbyn £11m o gyllid cyfalaf sbarduno ar gyfer y Porthladd Rhydd. Yn sgil hyn, llwyddodd y Cyngor i ohirio'r benthycia ychwanegol oedd wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mawrth 2025.

Mae'r sefyllfa bresennol yn y Dwyrain Canol wedi effeithio ar gyfraddau llog a bydd y Cyngor yn parhau i fonitro a gohirio, os yw'n bosib, unrhyw fenthyciadau newydd hyd nes bydd cyfraddau'n dechrau gostwng eto.

6.3. Benthycia Cyn Bod Angen (Paragraff 8.3 yn y DSRhT 2025/26)

Roedd y strategaeth yn nodi'n glir na fyddai'r Cyngor yn benthycia cyn bod angen oni bai y gellir dangos bod hynny'n sicrhau gwerth am arian, a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch cyllid o'r fath.

Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau yn ystod 2025/26.

6.4. Aildrefnu Dyledion (Paragraff 8.4 yn y DSRhT 2025/26)

Gellir ystyried aildrefnu dyledion os oes arian dros ben ar gael i hwyluso'r ad-daliad ac os yw'r aildrefnu'n ail-gydbwyso'r portffolio ac os yw'r premiwm sy'n daladwy yn llai na'r arbedion llog a wneir.

Ni chafodd unrhyw fenthyciadau eu haildrefnu yn ystod 2025/26 gan nad oes unrhyw frys mawr i ail-gydbwyso'r portffolio ac mae costau ad-dalu benthyciadau'n gynnar yn parhau i fod yn rhwystr.

6.5. Gwrthbartïon Benthycia (Paragraff 8.5 yn y DSRhT 2025/26)

Mae'r strategaeth yn nodi mai'r BBGC fydd prif ffynhonnell fenthycia'r Cyngor o hyd, ond gellir ystyried benthycia gan sefydliadau eraill hefyd.

Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau allanol yn ystod y flwyddyn.

6.6. Blaenoriaeth Buddsoddi (Paragraff 10.2.1 yn y DSRhT 2025/26)

Mae'r strategaeth yn nodi bod y Cyngor yn blaenoriaethu buddsoddiadau yn ôl diogelwch, hylifedd, enillion, h.y. mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y buddsoddiad uwchlaw bob ystyriaeth arall. Yna, mae'n sicrhau fod buddsoddiadau'n ystyried angen y Cyngor i gael gafael ar rywfaint o arian parod ar unwaith ac yna'n ystyried yr elw yn olaf.

Yn ystod y flwyddyn, roedd yr egwyddorion buddsoddi hyn yn weithredol ac roedd pob buddsoddiad yn unol â'r egwyddorion hyn.

6.7. Gwrthbartïon Buddsoddi (Paragraff 10.2 - 10.4 yn y DSRhT 2025/26)

Mae'r strategaeth yn nodi nifer o feini prawf yn gysylltiedig â gwrthbartïon buddsoddi ac mae'n cynnwys graddfa credyd pob sefydliad, yr uchafswm y gellir ei fuddsoddi gydag un sefydliad, hyd y buddsoddiadau a'r gwledydd cymeradwy lle gellir buddsoddi.

Yn ystod y flwyddyn, cydymffurfiwyd â'r holl feini prawf a osodwyd a ni fu'r un achos o fynd yn groes i'r meini prawf hyn.

7. DANGOSYDDION DARBODUS

- 7.1. Yn ogystal â'r egwyddorion a nodir uchod, mae'r Strategaeth hefyd yn cynnwys nifer o ddangosyddion darbodus a therfynau awdurdodedig. Pwrpas y dangosyddion hyn yw rheoli gwariant cyfalaf a faint sy'n cael ei fenthylg i gyllido'r gwariant hwn, a mesur pa mor fforddiadwy yw'r costau refeniw yn gysylltiedig â benthyca. Mae Tabl 8 isod yn nodi'r perfformiad gwirioneddol ar gyfer 2025/26, o'i gymharu â'r amcangyfrif yn y strategaeth wreiddiol:-

Tabl 8
Dangosyddion Darbodus 2025/26

DANGOSYDDION PERFFORMIAD				
Grŵp y Dangosydd	Disgrifiad	Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025/26	Amcangyfrif o'r Sefyllfa ar ddiwedd Ch 3	
Fforddiadwyedd	Cymhareb Costau Cyllido yn erbyn y Ffrwd Refeniw Net – Cronfa Gyffredinol	2.60%	1.83%	
	Cymhareb Costau Cyllido yn erbyn y Ffrwd Refeniw Net - Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	10.03%	10.13%	
Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)	Cronfa'r Cyngor a CRT	£154.390m	£156.581m	
TERFYNAU AWDURDODEDIG				
Darbodus	Mae'n rhaid i'r ddyled gros fod yn is na'r GCC ynghyd ag unrhyw GCC ychwanegol yn ystod y ddwy flynedd nesaf	<171.070m	£121.706m	
Dyled Allanol	Terfyn Awdurdodedig	< £181.230m	£121.706m	
	Terfyn Gweithredol	< £171.230m	£121.706m	
Pryd fydd y Ddyled yn Aeddfedu	O dan 12 mis	<20% o gyfanswm y ddyled = £24.341m	£2.061m	1.69%
	12 mis ac o fewn 24 mis	<20% o gyfanswm y ddyled = £24.341m	£4.908m	4.03%
	24 mis ac o fewn 5 mlynedd	<50% o gyfanswm y ddyled = £60.853m	£9.026m	7.42%
	5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	<75% o gyfanswm y ddyled = £85.194m	£14.086m	11.57%
	10 mlynedd a mwy	100% = £121.706m	£121.706m	100.00%


- 7.2. Mae'r tabl uchod yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r holl ddangosyddion a therfynau awdurdodedig a nodir yn y strategaeth.


8. 2026/27 A THU HWNT

- 8.1.** Mae'r DSRhT ar gyfer 2026/27 (a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 5 Mawrth 2026) yn nodi'r rhagolygon a'r strategaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- 8.2.** Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol roedd gan y Cyngor falansau arian parod o £20m. Amcangyfrifir all-lif arian parod net o thua £9m yn ystod 2026/27 a bydd hyn yn dod â balans arian parod y Cyngor yn agos at yr isafswm o £10m. Seiliwyd y ffigyrau hyn ar ragolygon ac maent yn debygol o newid, yn bennaf oherwydd amseru gwariant cyfalaf ac yn sgil derbyn cyllid grant gan LIC. Er mwyn sicrhau bod balansau arian parod yn parhau i fod yn iach, efallai y bydd rhaid troi benthyciadau mewnol yn fenthyciadau allanol rhyw bryd yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'n bosib y gallai cyfraddau llog ostwng yn ystod rhan olaf 2026, neu ran gyntaf 2027, felly, bydd benthycia ychwanegol yn cael ei ohirio am gyn hired â phosib er mwyn lleihau costau llog yn y dyfodol.
- 8.3.** Yn ystod 2026/27, bydd un benthyciad o £853,800 sy'n dyddio'n ôl i 1994 yn cael ei ad-dalu, ynghyd â'r benthyciad gadael y system cyntaf ar gyfer y CRT gwerth £527,601. Bydd benthyciadau pellach am adael y system yn cael eu had-dalu'n flynyddol tan 2045. Yn ogystal â hyn, bydd £22,232 o fenthyciadau blwydd-dal a £657,692 o fenthyciadau Salix yn cael eu had-dalu yn 2026/27. Bydd benthyciadau pellach, gwerth £2.847m, yn cael eu had-dalu yn 2027/28.


9. CASGLIADAU

- 9.1.** Roedd perfformiad Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth o ddefnyddio buddsoddiadau risg isel ac enillion isel, a dull benthycia a gynlluniwyd i leihau costau llog cymaint â phosib.
- 9.2.** Mae perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a bennwyd gan y Cyngor yn dangos fod gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn cael eu cynnal mewn ffordd reoledig sy'n sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor ac nad ydynt yn rhoi'r Cyngor mewn unrhyw berygl ariannol sylweddol o ran benthyciadau anfforddiadwy neu ormodol.
- 9.3.** Mae Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor, a'i berfformiad yn erbyn y strategaeth, yn ystyried y ffactorau economaidd allanol ac mae'n cael ei hadolygu'n gyson i sicrhau mai hon yw'r strategaeth fwyaf addas wrth symud ymlaen.





Cyfanswm Benthyciadau yn Ddyledus ar Diwedd Flwyddyn Ariannol Fesul Gronfa
Total Loan Outstanding as at the End of the Financial Year by Fund



Cyfanswm Benthyciadau yn Ddyledus ar Diwedd Flwyddyn Ariannol Fesul Gronfa
Total Loan Outstanding as at the End of the Financial Year by Fund

